NHS
Lloegr

NHS
Uned Cefnogi Comisiynu Arden a
Dwyrain Canolbarth Fwyaf Lloegr

Fen House
Fen Lane
Lincoln
LN6 8UZ

Annwyl Glaf, Riant neu Warcheidwad

31ain Mai 2024

Mae GIG Lloegr yn anfon y llythyr hwn at bawb sydd ar y rhestr aros am Wasanaeth Rhywedd y GIG i Blant a Phobl Ifanc, ond bydd yr wybodaeth hon o'r pwys mwyaf i blant a phobl ifanc, a'u rhieni neu ofalwyr, sy'n cymryd analogau hormonau rhyddhau Gonadotropin (analogau GnRH) ar gyfer anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd (a gyfeirir atynt yn gyffredin fel Meddyginiaethau Atal y Glasoed neu Hormonau Atal y Glasoed).

Mae'r llythyr hwn yn rhoi gwybodaeth frys ar oblygiadau polisi newydd y Llywodraeth.

Bu i'r Llywodraeth gyflwyno cyfyngiadau brys ar 29 Mai 2024 ar y defnydd o grŵp o feddyginiaethau a elwir yn analogau GnRH, pan ddefnyddir nhw i atal y glasoed fel rhan o drin anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd mewn plant a phobl ifanc sydd o dan 18 oed. Bydd rhai o'r cyfyngiadau hyn yn dod i rym ar 3 Mehefin 2024.

Cyhoeddir cyhoeddiad y Llywodraeth yma:
https://www.gov.uk/government/news/new-restrictions-on-puberty-blockers

Mae'r trefniadau newydd yn berthnasol i feddyginiaethau sy'n cynnwys buserelin, gonadorelin, goserelin, asetad leuprorelin, nafarelin, neu triptorelin Mae'n cynnwys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i, feddyginiaethau sy'n cael eu gwerthu o dan yr enwau brand: Decapeptyl® ,Gonapeptyl Depot® , Salvacyl® , Prostap® , Staladex® , Zoladex® , Synarel.

Yr unigolion a effeithir fwyaf yw'r rhai sydd ar hyn o bryd yn derbyn presgripsiwn am analogau GnRH gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi ei gofrestru tu allan i'r DU yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, neu a oedd yn bwriadu cael presgripsiwn o'r fath.Yr unigolion a effeithir fwyaf yw'r rhai sydd ar hyn o bryd yn derbyn presgripsiwn am analogau GnRH gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi ei gofrestru tu allan i'r DU yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, neu a oedd yn bwriadu cael presgripsiwn o'r fath. Bydd hefyd yn effeithio'n arbennig ar unigolion sydd heb ddechrau cwrs o driniaeth ag analogau GnRH eto, yn dibynnu am beth mae'r driniaeth.

Os ydych chi *angen help*

Rydyn ni'n deall gall newidiadau'r Llywodraeth achosi poen a phryder i rai unigolion a theuluoedd. Os yw'n effeithio ar eich iechyd meddwl, efallai byddwch am geisio cefnogaeth. Os ydych chi o dan ofal gwasanaeth iechyd meddwl y GIG, dylech chi gysylltu â'ch tîm Os nad ydych, gallwch gysylltu â phractis eich meddyg teulu. Mae rhagor o gyngor ar gael cefnogaeth iechyd meddwl ar gael yn

https://www.nhs.uk/mental-health/children-and-young-adults/mental-health-support/

Os ydych chi angen cefnogaeth gan eich bod chi'n disgwyl cael eich gweld gan <100>Wasanaeth Rhywedd y GIG *i Bobl Ifanc*, gellir canfod dewisiadau cefnogi ar wefan y Gwasanaeth Cymorth Rheoli Atgyfeirio'r GIG ar gyfer y Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc.

**Angen cefnogaeth ar frys?**

Os ydych chi angen cymorth ar frys gallwch gysylltu â GIG a dewis yr opsiwn iechyd meddwl (opsiwn 2) https://www.nhs.uk/nhs-services/mental-health-services/where-to-get-urgent-help- for-mental-health/

## Newidiadau a wnaed gan y Llywodraeth

O ganlyniad i bolisi newydd y Llywodraeth, 0 3 Mehefin 2024, bydd yn drosedd i fferyllydd, meddyg neu unrhyw unigolyn arall ym Mhrydain Fawr i werthu neu gyflenwi'r cyffuriau hyn i gleifion o dan 18 oed **ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:**

- Mae'r plentyn neu berson ifanc yn defnyddio presgripsiwn y GIG (er enghraifft, gan W*asanaeth Rhywedd y GIG i Blant a Phobl Ifanc* neu gan Feddyg Teulu y GIG).
- Mae'r plentyn neu berson ifanc yn defnyddio presgripsiwn preifat gan glinigydd wedi ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig sy'n cyflawni'r meini prawf canlynol:
  - Os cafodd y presgripsiwn ei ddyddio cyn 3 Mehefin 2024, p'run ai fel presgripsiwn un tro neu bresgripsiwn rheolaidd, gellir o hyd ei weinyddu, p'run a yw'r driniaeth am anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd neu ryw ddiben arall. Yn ymarferol, oni bai ei fod yn bresgripsiwn rheolaidd, bydd angen iddo fod wedi ei gyhoeddi yn y chwe mis blaenorol i barhau'n ddilys; neu
  - Os yw'r presgripsiwn wedi ei ysgrifennu ar neu ar ôl 3 Mehefin 2024, gall ei weinyddu gan feddyg, nyrs neu fferyllydd wedi ei gofrestru yn y DU, ni waeth beth fo'i bwrpas. Mae rhaid iddo fod am bwrpas heblaw am driniaeth am anghydweddiad rhywedd neu, os yw am ddysfforia/ anghydweddiad rhywedd, mae rhaid bod y claf wedi dechrau ar ei driniaeth cyn 3 Mehefin 2024. Yn ychwanegol i'r cleifion hynny sydd wedi dechrau triniaeth, mae cleifion yn cael eu trin fel wedi dechrau eu triniaeth, p'run a ydynt wedi cymryd mewn gwirionedd wedi cymryd analog GnRH, os rhagnodwyd nhw ag analog GnRH ar neu cyn 3 Rhagfyr 2023.

Bydd hefyd yn drosedd i feddu ar y meddyginiaethau hyn, lle oedd gan yr unigolyn achos rhesymol i wybod bod y feddyginiaeth wedi ei gwerthu neu ei chyflenwi gan dorri'r gwaharddiad.

Yn ogystal,, o 26 Mehefin 2024 bydd rhagnodwyr y GIG mewn practisau meddygon teulu mewn gofal sylfaenol dim ond yn gallu cyflenwi – neu barhau i gyflenwi – presgripsiynau ar gyfer analogau GnPH yn yr amgylchiadau canlynol:

- Mae'r claf dros 18 oed; neu
- Mae'r claf yn 17 neu'n iau ac wedi dechrau triniaeth gyda'r meddyginiaethau hyn (byddan nhw'n cael eu trin fel dechrau triniaeth os ydynt wedi derbyn presgripsiwn am y meddyginiaethau hyn ers 3 Rhagfyr 2023, hyd yn oed os nad ydyn nhw mewn gwirionedd wedi dechrau cymryd y feddyginiaeth); neu
- Mae'r claf yn 17 neu'n iau ac yn cael ei drin ag analogau GnRH am anghydweddiad rhywedd

neu ddysfforia rhywedd gan y GIG fel rhan o dreial clinigol yn y dyfodol a oruchwylir gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd a Gofal.

- Mae'r claf yn 17 neu'n iau a diben y presgripsiwn yw am gyflwr meddygol heblaw am anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd.

*O 3ydd Mehefin, gwaherddir presgripsiynau preifat o analogau GnRH gan ragnodwr wedi ei gofrestru yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir rhag cael eu cyflenwi ym Mhrydain Fawr o dan bob amgylchiadau ar gyfer cleifion o dan 18.*

## Effaith y newidiadau hyn.

Yr unigolion a fydd yn cael eu heffeithio fwyaf gan bolisi'r Llywodraeth yw'r rhai o dan 18 mlwydd oed sydd ar hyn o bryd yn derbyn presgripsiwn am analogau GnRH am unrhyw reswm gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sydd wedi ei gofrestru tu allan i'r DU yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir, neu a oedd yn bwriadu cael presgripsiwn o'r fath. Bellach ni fydd fferyllfeydd ym Mhrydain Fawr yn gallu gweinyddu presgripsiynau newydd am analogau GnRH gan ragnodwyr nad ydynt wedi eu cofrestru yn y DU, gan gynnwys y rheiny yn yr AEE neu'r Swistir, ar gyfer unrhyw un sy'n 17 neu'n iau. Bydd hefyd yn effeithio'n arbennig ar rheiny sydd heb ddechrau cwrs o driniaeth gydag analogau GnRH, ond efallai eu bod wedi dechrau cwrs preifat o driniaeth gyda nhw am anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd yn y misoedd i ddod.

Gall unigolion sydd eisoes yn derbyn presgripsiynau GIG neu breifat gan glinigwyr wedi eu cofrestru yn y Deyrnas Unedig barhau i dderbyn eu presgripsiynau. Fodd bynnag, mae unigolion o'r fath a'u teuluoedd yn cael eu cynghori'n gryf i gwrdd â'r clinigydd sy'n rhagnodi er mwyn deall yn llawn y risgiau diogelwch sy'n gysylltiedig ag analogau GnRH pan y'u rhagnodir am anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd.

*Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn egluro sut gall newidiadau'r Llywodraeth effeithio ar wahanol unigolion.*

## Prynu analogau GnHR o ffynonellau heb eu rheoleiddio

Dylai neb brynu analogau GnRH (neu unrhyw feddyginiaeth arall) o ffynonellau heb eu rheoleiddio fel y rhyngrwyd, ffrindiau neu o fasnachwyr stryd.

O 3 Mehefin 2024 canlyniadau newidiadau'r Llywodraeth yw bydd *meddu* analogau GnRH yn dod yn drosedd lle oedd gan yr unigolyn achos rhesymol i wybod bod y feddyginiaeth wedi ei gwerthu neu ei chyflenwi gan dorri gwaharddiad y Llywodraeth.

Lle mae plentyn neu berson ifanc yn cael analogau GnRH o ffynonellau heb eu rheoleiddio neu ddarparwyr heb eu rheoleiddio, gall meddygon teulu dod i'r casgliad y dylid archwilio trefniadau diogelu.

Gall meddyginiaethau heb eu rheoleiddio fod â sgil effeithiau sy'n bosibl o fod yn beryglus yn y tymor byr a'r hir dymor; a gall hyd yn oed cyffuriau a ragnodir fod yn beryglus, oni bai iddynt gael eu rhagnodi gan, a'u rheoli gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol profiadol sydd wedi ei hyfforddi'n briodol.

Yr eiddoch yn ddiffuant

Yr Athro James Palmer

Cyfarwyddwr Meddygol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol

Hawlfraint © GIG Lloegr 2024

Anfonwyd gan Wasanaeth Cefnogi Atgyfeirio Cenedlaethol Uned Cefnogi Comisiynu GIG Arden a Dwyrain Canolbarth Fwyaf Lloegr

https://www.ardengemcsu.nhs.uk/services/clinical-support/national-referral-support-service- for-the-nhs-gender-incongruence-service-for-children-and-young-people/

Hawlfraint © GIG Lloegr 2024

| SUT MAE'R NEWIDIADAU YN EFFEITHIO ARNAF FI? | |
|---|---|
| • Rydw i o dan 18 oed; a<br>• Dydw i ddim o dan ofal y GIG eto; a<br>• Rwy eisiau dechrau ar analogau GnRH ar gyfer anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd | Nid yw hyn o bosibl un ai drwy'r GIG neu'n breifat:<br>• Nid yw cychwyn analogau GnRH yn bosibl yng Ngwasanaeth Rhywedd Plant a Phobl Ifanc y GIG oni bai fod hyn yn rhan o astudiaeth glinigol yn y dyfodol.<br>• Ni all feddygon teulu gychwyn presgripsiwn newydd y GIG o 26 Mehefin 2024.<br>• Ni all ymarferwyr meddygol preifat gychwyn presgripsiwn newydd o 3 Mehefin 2024 i oedolion sydd heb ddechrau triniaeth eto. Bydd cyflenwi yn erbyn presgripsiynau o'r fath yn anghyfreithlon.<br>• Ni all fferyllfeydd ym Mhrydain Fawr weinyddu presgripsiwn preifat newydd y DU o 3 Mehefin neu bresgripsiwn newydd y GIG o 26 Mehefin, oni bai bod y claf wedi dechrau ar driniaeth cyn i'r cyfyngiadau dod i rym.<br>• Ni all fferyllfeydd ym Mhrydain Fawr weinyddu unrhyw bresgripsiwn am analogau GnRH o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir o 3 Mehefin 2024, oni bai fod y rhagnodwr yn digwydd bod wedi ei gofrestru yn y DU. |
| • Rydw i o dan 18 oed; a<br>• chefais fy atgyfeirio at dîm endocrinoleg paediatrig y GIG ar gyfer asesiad o addasrwydd o analogau GnRH am anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd ar neu cyn 31 Mawrth 2024. | Efallai byddwch chi'n gallu ddechrau ar analogau GnRH os yw tîm newydd y GIG sy'n gyfrifol am eich gofal yn gwneud argymhelliad am ddechrau triniaeth yn dilyn asesiad, ac os yw'r tîm endocrinoleg paediatrig yn gysylltiedig â Gwasanaeth Rhywedd y GIG i Blant a Phobl Ifanc yn cytuno i ragnodi'n uniongyrchol. |
| • Rydw i o dan 18 oed; a<br>• Rydw i eisoes yn cael fy rhagnodi analogau GnRH trwy'r GIG am anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd | Rydych chi'n gallu parhau i dderbyn analogau GnRH.<br>Gall Gwasanaeth Rhywedd y GIG i Blant a Phobl Ifanc a rhagnodwyr lleol (os ydynt eisoes yn rhagnodi) barhau i ragnodi; bydd rhaid i'r presgripsiwn gael ei arnodi gan y |

Hawlfraint © GIG Lloegr 2024

| | |
|---|---|
| | rhagnodwr er mwyn dangos bod eich sefyllfa yn bodloni'r gofynion newydd.<br><br>Fodd bynnag, fe'ch cynghorir yn gryf i gwrdd â'ch clinigydd fel bod y risgiau o barhau / ddechrau wedi eu deall yn llwyr. |
| • Rydw i o dan 18 oed; a<br>• Rydw i eisoes wedi fy rhagnodi ag analogau GnRH gan ymarferwr meddygol preifat, gan ddefnyddio presgripsiwn y DU, am anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd | Rydych chi'n gallu parhau i dderbyn analogau GnRH.<br><br>Gall yr ymarferwr meddygol preifat barhau i ragnodi; bydd rhaid i'r presgripsiwn gael ei arnodi gan y rhagnodwr i ddangos bod eich sefyllfa'n bodloni'r gofynion newydd. Os cyhoeddwyd y presgripsiwn cyn 3 Mehefin 2024, byddwch angen darparu prawf oedran pan weinyddir eich meddyginiaethau os nad yw'ch presgripsiwn yn datgan eich oedran/dyddiad geni.<br><br>Fodd bynnag, fe'ch cynghorir yn gryf i gwrdd â'ch clinigydd fel bod y risgiau o barhau / ddechrau wedi eu deall yn llwyr. |
| • Rydw i o dan 18 oed; a<br>• Rydw eisoes wedi fy rhagnodi ag analogau GnRH trwy bresgripsiwn preifat gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu'r Swistir. | **Ni** fyddwch yn gallu derbyn analogau GnRH gan fferyllfa ym Mhrydain Fawr o 3 Mehefin 2024 o bresgripsiwn a gyhoeddwyd o'r dyddiad hwnnw. Ni all fferyllfeydd ym Mhrydain Fawr weinyddu presgripsiynau newydd yr AEE / y Swistir am analogau GnRH mwyach o 3 Mehefin 2024<br><br>Bydd rhaid ichi roi'r gorau i gymryd analogau GnRH, oni bai eich bod wedi'ch rhagnodi o'r newydd gan feddyg, nyrs neu fferyllydd sydd wedi ei gofrestru yn y DU. Gellir rhoi'r gorau i'r meddyginiaethau hyn yn ddiogel ac nid oes rhaid ichi gael eich diddyfnu oddi arnynt.<br><br>**Fe'ch cynghorir yn gryf i gwrdd â'ch clinigydd a gychwynnodd y driniaeth am gyngor a chymorth pellach.**<br><br>Os ydych angen cefnogaeth seicolegol, gofynnwch i'ch meddyg teulu eich atgyfeirio i'ch gwasanaeth iechyd meddwl GIG lleol ar gyfer plant a phobl ifanc.<br><br>Cysylltwch â GIG 111 os ydych chi'n meddwl eich bod mewn perygl uniongyrchol o niwed seicolegol. |

Hawlfraint © GIG Lloegr 2024

| | |
|---|---|
| • Rydw i o dan 18 oed; a<br>• Rydw eisoes wedi fy rhagnodi ag analogau GnRH at ddiben gwahanol i anghydweddiad rhywedd neu ddysfforia rhywedd | Nid yw'r newidiadau'n effeithio arnoch chi, ac eithrio bod:<br>• Nid yw presgripsiynau GIG yn cael eu heffeithio, ond o 26 Mehefin 2024 bydd rhaid i'r presgripsiwn gael ei arnodi gan y rhagnodwr i ddangos bod eich sefyllfa'n bodloni'r gofynion newydd.<br>• Os yw'n bresgripsiwn preifat, a gyhoeddwyd cyn 3 Mehefin 2024, bydd angen ichi ddarparu prawf oedran pan weinyddir eich meddyginiaethau.<br>• Os yw'n bresgripsiwn preifat newydd, bydd rhaid i'r presgripsiwn gael ei arnodi gan y rhagnodwr i ddangos bod eich sefyllfa'n bodloni'r gofynion newydd.<br>• Os ydych yn cael eich rhagnodi gan ragnodwr a gofrestrwyd yn yr AEE neu'r Swistir ond nid yn y DU, ni fydd presgripsiynau newydd yn ddilys. Bydd rhaid i unrhyw bresgripsiwn newydd gael ei ysgrifennu gan feddyg, nyrs neu fferyllydd sydd wedi ei gofrestru yn y DU. Ceisiwch gyngor gan eich meddyg teulu. Efallai bydd yn gallu rhagnodi hyn ichi os yw hyn o fewn eu cwmpas ymarfer clinigol neu efallai gall wneud atgyfeiriad at yr arbenigwr perthnasol. |
| • Rydw i'n 18 oed neu drosodd | Nid yw'r newidiadau'n effeithio arnoch chi.<br>• Os ydych chi'n cael eich rhagnodi gan ragnodwr preifat y DU neu ragnodwr preifat a gofrestrwyd yn yr AEE neu'r Swistir, bydd angen ichi ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'ch oed a'ch hunaniaeth fel eich pasbort pan weinyddir eich meddyginiaethau.<br>• Bydd rhagnodwyr preifat y DU yn gallu arnodi presgripsiynau newydd a gyhoeddir ar neu ar ôl 3 Mehefin 2024, i'ch arbed chi rhag gwneud hyn. |